Office for National Statistics
Swyddfa Ystadegau Gwladol

2021 Cyfrifiad Census

# Rhaglen Trawsnewid Cyfrifiad SYG

## Golwg cychwynnol ar gynnwys Cyfrifiad 2021 Cymru a Lloegr

## Ddywedoch chi: Crynodeb o'r canlyniadau

Tachwedd 2015

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 2 |
| 2 | Crynodebau pwnc | 3 |
| 2.1 | Seiliau allbwn a chyfrifo | 3 |
| 2.2 | Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref | 5 |
| 2.3 | Tai | 6 |
| 2.4 | Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol | 7 |
| 2.5 | Iaith | 8 |
| 2.6 | Crefydd | 9 |
| 2.7 | Mudo a dinasyddiaeth | 10 |
| 2.8 | Addysg | 11 |
| 2.9 | Iechyd | 12 |
| 2.10 | Gofalwyr | 13 |
| 2.11 | Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol | 14 |
| 2.12 | Teithio | 15 |
| 2.13 | Incwm | 16 |
| 2.14 | Hunaniaeth rywiol | 17 |
| 3 | Pynciau arfaethedig newydd | 18 |
| 4 | Ymatebion achyddion | 19 |
| 5 | Camau nesaf | 20 |

Atodiad A: Tablau crynhoi ar gyfer cwestiynau caeëdig ........ 21

# 1. Cyflwyniad

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd eu barn i ni drwy ymateb i'r ymgynghoriad ar gynnwys Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr.

Gwnaethom wahodd barn ar "Cyfrifiad 2021 - Barn gychwynnol ar gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr" rhwng 4 Mehefin a 27 Awst 2015, gyda'r nod o hyrwyddo trafodaeth ac annog datblygu achosion cryf am bynciau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021. Roeddem yn canolbwyntio ar y wybodaeth sydd ei hangen o Gyfrifiad 2021, nid y cwestiynau manwl y gellid eu cynnwys yn yr holiadur.

Cafodd SYG 1,095 o ymatebion i'r ymgynghoriad; roedd 279 o'r rhain gan sefydliadau ac roedd 816 gan unigolion. Nodwyd fod 592 o'r holl ymatebion a gafwyd wedi'u cyflwyno gan achyddion. Mae Tabl 1 yn dangos nifer yr ymatebion sefydliadol fesul sector.

### Tabl 1: Nifer yr ymatebion sefydliadol fesul sector

| Sector sefydliadol | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---:|
| Adran o'r llywodraeth / corff cyhoeddus | 32 |
| Awdurdod lleol | 117 |
| Sefydliad iechyd | 6 |
| Tai | 6 |
| Academaidd / ymchwil | 18 |
| Elusennol a gwirfoddol | 56 |
| Masnachol | 10 |
| Achydd / hanesydd teulu | 12 |
| Arall | 22 |
| Cyfanswm | 279 |

Diben yr adroddiad hwn yw darparu trosolwg o'r ymatebion a gafwyd. Mae SYG yn gweithio drwy werthusiad cyflawn o'r holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, gan ddefnyddio'r meini prawf gwerthuso a gyhoeddwyd fel rhan o "Cyfrifiad 2021 - Barn gychwynnol ar gynnwys ar gyfer Cymru a Lloegr". Ni ddylai defnyddwyr ddod i farn am benderfyniadau sy'n ymwneud â'r cynnwys yn seiliedig ar y deunydd a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Nid yw angen defnyddiwr am wybodaeth am bwnc penodol o reidrwydd yn golygu bod y cyfrifiad yn ffordd briodol neu ymarferol o gasglu'r wybodaeth honno.

Byddwn yn cyhoeddi ymateb llawn i'r ymgynghoriad yn 2016 sy'n diweddaru barn SYG ar y wybodaeth a gaiff ei chasglu, meysydd sydd angen rhagor o waith cyn gwneud penderfyniad a'r hyn na chaiff ei gasglu. Rydym yn rhagweld rhagor o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod 2016 lle y bo'n briodol.

Fel gyda chyfrifiadau blaenorol, caiff cyfrifiadau ar wahân eu cynnal yn yr Alban a Gogledd Iwerddon a bydd y tair swyddfa cyfrifiad yn cydweithio er mwyn datblygu set o gwestiynau a fydd, lle y bo'n bosibl, yn darparu allbynnau wedi'u cysoni ledled y DU. Mae Cofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon wrthi'n cynnal ymgynghoriadau ar y cynnwys a fydd yn rhan o'u cyfrifiadau perthnasol.

# 2. Crynodebau pwnc

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb fesul pwnc o'r ymatebion ar gyfer y pynciau hynny y rhoddodd SYG farn gychwynnol arnynt yn ystod yr ymgynghoriad. Ei nod yw rhoi blas i ni ar yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr. Mae'n cynnwys tablau cryno am nifer defnyddwyr y data, y nifer sy'n cytuno â barn gychwynnol SYG a'r effaith ar ddefnyddwyr os na fyddai'r data yn cael eu casglu, a rhai o'r negeseuon sy'n ategu hyn.

Mae tablau 2 i 15 yn dangos niferoedd a chanrannau'r sawl sy'n defnyddio'r data a'r sawl nad ydynt yn defnyddio'r data yn ôl eu hymateb fel unigolyn neu sefydliad. Caiff nifer yr ymatebwyr a roddodd o leiaf un ymateb i bwnc ond na wnaethant ateb y cwestiwn hwn wedi'u cynnwys er cyfanrwydd.

Yn yr ymgynghoriad, gofynnodd SYG gyfres o gwestiynau am y defnydd a wneir o ddata, yr angen am allbynnau ar gyfer ardaloedd neu boblogaethau bach, yr angen am gymharu yn y DU, yr angen i ddefnyddio gwybodaeth am y pwnc hwn ar y cyd â gwybodaeth am bynciau eraill a bodolaeth ffynonellau amgen. Mae Tablau A1 - A8 yn Atodiad A yn crynhoi'r ymatebion i'r cwestiynau hyn.

## 2.1 Seiliau allbwn a chyfrifo

Defnyddiodd ymatebwyr i'r adran hon o'r ymgynghoriad y cwestiynau i fynegi barn ar amrywiaeth eang o bynciau sy'n gysylltiedig â'r cyfrifiad yn ogystal â seiliau allbwn a chyfrifo. Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau ehangach hyn yn gysylltiedig â phynciau penodol i'r cynnwys yng Nghyfrifiad 2021, ac maent wedi'u hystyried mewn perthynas â'r pwnc penodol.

Yn ogystal, defnyddiodd rhai ymatebwyr yr adran hon fel cyfle i ddweud wrthym am yr ardaloedd daearyddol yr oedd angen gwybodaeth arnynt amdanynt. Bydd y rhain yn llywio'r gwaith ar allbynnau wrth iddo ddatblygu drwy oes Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad.

### Sail Gyfrifo

Ni wnaeth yr ymgynghoriad ofyn yn benodol am adborth ar y sail gyfrifo ar gyfer Cyfrifiad 2021, fodd bynnag, rhoddodd 11 o ymatebwyr eu barn yn benodol.

<table>
<tr><th>Manylion y pwnc</th><th>Barn gychwynnol</th><th>Sylw</th></tr>
<tr><td>Diffiniad o breswylfa arferol</td><td>Ni ddylid ei newid</td><td rowspan="4">Roedd cefnogaeth ar gyfer y farn gychwynnol na ddylai sail gyfrifo Cyfrifiad 2021 gael ei newid yn dilyn Cyfrifiad 2011.<br><br>Cafodd rhai sylwadau penodol eu nodi o ran cyfrifo'r sawl sy'n ddigartref a'r diffiniad o bobl a oedd yn bresennol (ymwelwyr a phreswylwyr byrdymor a aned yn y DU) a ddefnyddir.</td></tr>
<tr><td>Diffiniad o gartref</td><td>Ni ddylid ei newid</td></tr>
<tr><td>Diffiniad o ymwelydd</td><td>Ni ddylid ei newid</td></tr>
<tr><td>Preswylydd byrdymor</td><td>Ni ddylid ei newid</td></tr>
</table>

## Seiliau Allbwn

Yn gyfan gwbl, atebodd 538 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn. O blith y rhain, dywedodd 535 wrthym eu bod o'r farn bod digon o hyblygrwydd o ran y seiliau allbwn a oedd ar gael o Gyfrifiad 2011.

Mae Tabl 2 isod yn dangos fod 88% o ymatebwyr o'r farn bod digon o hyblygrwydd yn y seiliau allbwn; gydag unigolion a sefydliadau yn darparu canlyniadau tebyg.

### Tabl 2: Math o ymatebydd yn ôl y farn ar hyblygrwydd o ran y seiliau allbwn yng Nghyfrifiad 2011

| | Roedd seiliau allbwn yn ddigon hyblyg | | Nid oedd y seiliau allbwn yn ddigon hyblyg | | Ni wnaeth ddweud p'un a oedd y seiliau allbwn yn ddigon hyblyg ai peidio | | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 335 | 88 | 46 | 12 | 1 | 0 | 382 |
| Sefydliadau | 137 | 88 | 17 | 11 | 2 | 1 | 156 |
| Cyfanswm | 472 | 88 | 63 | 12 | 3 | 1 | 538 |

Cafodd y lefel hon o gytundeb ei adlewyrchu yn yr ymatebion ysgrifenedig a ddarparwyd. Rhoddodd yr ymatebwyr wybodaeth am y defnydd a wnaethant o'r data ar y seiliau allbwn gwahanol. Roedd y rhain yn cynnwys defnyddio cartrefi neu breswylwyr arferol i gyfrifo cyfraddau ar gyfer dangosyddion a defnyddio poblogaethau gweithleoedd a/neu boblogaethau diwrnod gwaith i gyd-fynd â'r rhain wrth ddeall effaith y farchnad lafur leol ar boblogaethau.

Er y cytunwyd yn gyffredinol fod seiliau allbwn Cyfrifiad 2011 yn ddigon hyblyg, awgrymwyd rhai seiliau allbwn ychwanegol. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

1. lle roedd preswylydd arferol yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser
2. lle gallai anheddau fod yn wag am ran o'r amser neu bob amser

## 2.2 Demograffeg sylfaenol a chyfansoddiad y cartref

Yn gyfan gwbl, atebodd 846 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn.

### Tabl 3: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y pwnc hwn

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 108 | 16 | 569 | 83 | 7 | 1 | 684 |
| Sefydliadau | 141 | 87 | 19 | 12 | 2 | 1 | 162 |
| **Cyfanswm** | 249 | 29 | 588 | 70 | 9 | 1 | 846 |

| **Manylion y pwnc** | **Barn gychwynnol** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Oedran | Casglu | Roedd cefnogaeth i barhau i gasglu gwybodaeth ddemograffig allweddol a gaiff ei defnyddio yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol (e.e. drwy ragamcanion o'r boblogaeth) yn y broses o ddynodi adnoddau wedi'i thargedu a chynllunio gwasanaethau. Mae rhyw ac oedran ill dau yn gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010. |
| Rhyw | Casglu | |
| Statws priodasol neu bartneriaeth gyfreithiol | Casglu | Gwybodaeth ddemograffig bwysig. |
| Cydberthnasau rhwng aelodau o'r cartref a chydberthnasau teuluol | Casglu | Gwybodaeth ddemograffig bwysig. Y Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell fanwl o'r wybodaeth hon a gaiff ei defnyddio i dargedu adnoddau a'r gwasanaethau a ddarperir tuag at grwpiau penodol. |

Gwnaeth rhai ymatebwyr gais am gategorïau ychwanegol o dan y cwestiwn "Beth yw eich rhyw?" ar gyfer pobl nad ydynt yn ystyried eu hunain yn wryw nac yn fenyw. Caiff y rhain eu cynnwys yn adran 3 o dan y pwnc hunaniaeth o ran rhywedd. Roedd argymhellion eraill yn cynnwys manylion ychwanegol am gydberthnasau teuluol, priodasau a phlant.

## 2.3 Tai

Yn gyfan gwbl, atebodd 416 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn.

**Tabl 4: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y pwnc hwn**

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 61 | 23 | 195 | 72 | 14 | 5 | 270 |
| Sefydliadau | 129 | 88 | 9 | 6 | 8 | 5 | 146 |
| **Cyfanswm** | 190 | 46 | 204 | 49 | 22 | 5 | 416 |

<table>
<tr><th>Manylion y pwnc</th><th>Barn gychwynnol</th><th>Sylw</th></tr>
<tr><td>Math o lety a llety hunangynhwysol</td><td>Casglu</td><td>Roedd cefnogaeth ar gyfer casglu data am y math o lety a llety hunangynhwysol er mwyn mewnbynnu'r broses o ddynodi adnoddau, datblygu polisïau a chynllunio gwasanaethau e.e. mewn perthynas â darpariaeth tai.</td></tr>
<tr><td>Deiliadaeth a landlord (os ydynt yn rhentu)</td><td>Casglu</td><td>Roedd cefnogaeth ar gyfer casglu data am ddeiliadaeth a'r landlord (os yn rhentu) yn arbennig mewn perthynas ag ateb y galw am dai yn y dyfodol a dyrannu cyllid.</td></tr>
<tr><td>Nifer yr ystafelloedd</td><td>Mae angen rhagor o wybodaeth</td><td rowspan="2">Roedd cefnogaeth am wybodaeth am y nifer o ystafelloedd ac ystafelloedd gwely er mwyn casglu gwybodaeth am orlenwi i fwydo'r broses o ddatblygu polisïau a chynllunio gwasanaethau. Roedd gwahaniaethau barn ynglŷn â ph'un ai mesur gorlenwi yn seiliedig ar y nifer o ystafelloedd neu nifer ystafelloedd gwely a fyddai fwyaf priodol.</td></tr>
<tr><td>Nifer yr ystafelloedd gwely</td><td>Casglu</td></tr>
<tr><td>Math o wres canolog</td><td>Mae angen rhagor o wybodaeth</td><td>Cafodd gwybodaeth sy'n ymwneud â'r math o wres canolog ei ddefnyddio mewn cyd-destun datblygu polisi sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni, tlodi tanwydd ac ansawdd tai.</td></tr>
<tr><td>Ceir neu faniau</td><td>Mae angen rhagor o wybodaeth</td><td>Defnyddiwyd gwybodaeth am geir a faniau er mwyn helpu i gynllunio trafnidiaeth, modelu trafnidiaeth a darparu mannau parcio.</td></tr>
</table>

Un thema amlwg ym mhob un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar bwnc tai oedd ymestyn y sector rhentu preifat, a gwerth posibl casglu data ar yr is-bwnc hwn. Cafodd hyn ei adlewyrchu mewn argymhellion gan ymatebwyr am wybodaeth ychwanegol er mwyn deall nodweddion landlordiaid preifat drwy ofyn p'un a yw unigolion yn berchen ar eiddo i'w osod.

Gofynnodd yr ymatebwyr hefyd am wybodaeth a oedd yn gysylltiedig â digartrefedd, cyflwr tai a defnydd o ynni.

## 2.4 Ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol

Yn gyfan gwbl, atebodd 449 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn.

### Tabl 5: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y pwnc hwn

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 83 | 28 | 197 | 66 | 19 | 6 | 299 |
| Sefydliadau | 136 | 91 | 8 | 5 | 6 | 4 | 150 |
| **Cyfanswm** | 219 | 49 | 205 | 46 | 25 | 6 | 449 |

| **Manylion y pwnc** | **Barn gychwynnol** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Grŵp ethnig | Casglu | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am ethnigrwydd mewn perthynas â bodloni dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys defnyddio'r wybodaeth mewn Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hon yn effeithio ar benderfyniadau am gyllid a darparu gwasanaethau. |
| Hunaniaeth genedlaethol | Casglu | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am hunaniaeth genedlaethol er mwyn cyd-fynd â'r wybodaeth am y grŵp ethnig, gan ganiatáu amrywiaeth ehangach o ddadansoddiadau i gael eu cyflawni i atgyfnerthu'r broses o wneud penderfyniadau. |

Roedd gan rai ymatebwyr farn ar gategorïau ethnigrwydd ychwanegol a ddylai gael eu cynnwys yng Nghyfrifiad 2021. Yn benodol, roedd ceisiadau am gategorïau ymateb newydd o dan y cwestiynau sy'n bodoli eisoes gan gynnwys Siciaeth, Iddewiaeth, Roma ac ymestyn y categori Gwyn-Arall o fewn y grŵp ethnig a Chernyweg o dan hunaniaeth genedlaethol.

## 2.5 Iaith

Yn gyfan gwbl, atebodd 309 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn.

### Tabl 6: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y pwnc hwn

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 20 | 10 | 167 | 87 | 5 | 3 | 192 |
| Sefydliadau | 91 | 78 | 21 | 18 | 5 | 4 | 117 |
| **Cyfanswm** | 111 | 36 | 188 | 61 | 10 | 3 | 309 |

| **Manylion y pwnc** | **Barn gychwynnol** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Y Gymraeg | Casglu yng Nghymru | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am y Gymraeg, a gaiff ei defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn strategaeth y Gymraeg ac i lywio polisïau a chynllunio sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg. |
| Prif ieithoedd a ddefnyddir | Casglu | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am y prif ieithoedd a ddefnyddir a medrusrwydd iaith Saesneg, a gaiff eu defnyddio i lywio'r broses o dargedu gwasanaethau iaith yn ogystal â dyrannu mentrau cyllido er mwyn targedu ynysu cymdeithasol a chydlyniant cymunedol mewn ardaloedd sydd â lefelau isel o fedrusrwydd iaith Saesneg. |
| Medrusrwydd iaith Saesneg | Casglu lle nad Saesneg (neu Gymraeg yng Nghymru) yw'r brif iaith | |

Roedd nifer o geisiadau yn gysylltiedig â'r defnydd o ieithoedd penodol, gan gynnwys medrusrwydd yn y Gymraeg ledled y DU, Iaith Arwyddion Prydain a'r Gernyweg.

## 2.6 Crefydd

Yn gyfan gwbl, atebodd 323 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn.

### Tabl 7: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y pwnc hwn

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 46 | 21 | 162 | 75 | 7 | 3 | 215 |
| Sefydliadau | 82 | 76 | 23 | 21 | 3 | 3 | 108 |
| **Cyfanswm** | 128 | 40 | 185 | 57 | 10 | 3 | 323 |

| **Manylion y pwnc** | **Barn gychwynnol** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Crefydd | Casglu | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am grefydd a gaiff ei defnyddio i ddatblygu a monitro polisïau a darparu gwasanaethau. Caiff hefyd ei ddefnyddio mewn perthynas â bodloni dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys defnyddio'r wybodaeth mewn asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. |

Nododd nifer fach o ymatebwyr gais am wybodaeth am arfer crefyddol yn hytrach nag ymlyniad crefyddol, neu gais am gasglu gwybodaeth ychwanegol er mwyn nodi'r sawl sy'n arfer y grefydd y maent wedi ymlynu â hi. Hefyd, cafwyd ceisiadau i gasglu gwybodaeth ychwanegol am enwadau crefyddol.

## 2.7 Mudo a dinasyddiaeth

Yn gyfan gwbl, atebodd 329 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn

### Tabl 8: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y pwnc hwn

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 38 | 18 | 169 | 78 | 10 | 5 | 217 |
| Sefydliadau | 91 | 81 | 18 | 16 | 3 | 3 | 112 |
| **Cyfanswm** | 129 | 39 | 187 | 57 | 13 | 4 | 329 |

| **Manylion y pwnc** | **Barn gychwynnol** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Mudo rhyngwladol hirdymor | Casglu | Roedd cymorth am wybodaeth am fudo rhyngwladol, a gaiff ei defnyddio i ddeall effaith llifoedd mudo ar y DU, ac i asesu effaith bosibl newidiadau polisi posibl yn y dyfodol. Caiff hefyd ei ddefnyddio i dargedu gwasanaethau ar gyfer grwpiau mudwyr penodol. |
| Mudo rhyngwladol byrdymor | Casglu | |
| Mudo mewnol | Casglu | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am fudo mewnol, sy'n brif ffactor o ran newid poblogaeth leol ac felly caiff ei defnyddio i ategu'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau. |

Dywedodd yr ymatebwyr wrthym hefyd am geisiadau am wybodaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r rheswm dros fudo a rhagor o fanylion sy'n gysylltiedig â hanes mudo mewnol a rhyngwladol.

## 2.8 Addysg

Yn gyfan gwbl, atebodd 293 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn.

### Tabl 9: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y pwnc hwn

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 28 | 16 | 146 | 83 | 1 | 1 | 175 |
| Sefydliadau | 100 | 85 | 14 | 12 | 4 | 3 | 118 |
| **Cyfanswm** | 128 | 44 | 160 | 55 | 5 | 2 | 293 |

| **Manylion y pwnc** | **Barn gychwynnol** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Cymwysterau a ddelir | Casglu | Mae'r pwnc hwn yn gysylltiedig iawn â'r ddealltwriaeth o'r sgiliau sydd ar gael ar gyfer y farchnad lafur. Caiff hefyd ei ddefnyddio i ddynodi NS-SeC. Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am addysg a gaiff ei defnyddio, yn aml ar lefel ardal fach, i lywio'r broses o gynllunio a darparu rhaglenni sgiliau ac ymgysylltu â busnesau ynglŷn â chynllunio'r gweithlu. Caiff hyn hefyd ei ddefnyddio mewn gwaith ymchwil er mwyn deall y gydberthynas rhwng addysg a ffactorau eraill, er enghraifft iechyd meddwl. |

Mae addysg yn faes sydd wedi'i ddatganoli a dywedodd yr ymatebwyr wrthym am bwysigrwydd casglu'r wybodaeth ar sail y gellir ei gymharu ledled y DU. Bydd hyn yn galluogi i wybodaeth gyson am y DU gael ei darparu i'w defnyddio mewn dadansoddiadau cymharol.

## 2.9 Iechyd

Yn gyfan gwbl, atebodd 312 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn.

### Tabl 10: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y pwnc hwn

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 36 | 21 | 133 | 76 | 5 | 3 | 174 |
| Sefydliadau | 118 | 86 | 16 | 12 | 4 | 3 | 138 |
| **Cyfanswm** | 154 | 49 | 149 | 48 | 9 | 3 | 312 |

| **Manylion y pwnc** | **Barn gychwynnol** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Iechyd cyffredinol | Casglu | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am iechyd cyffredinol er mwyn deall canlyniadau iechyd ac anghydraddoldebau, a chynllunio a darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus, gan gynnwys dyrannu adnoddau ar eu cyfer. |
| Problem iechyd neu anabledd hirdymor | Mae angen rhagor o wybodaeth | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am broblemau iechyd hirdymor neu anableddau mewn perthynas â bodloni dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys defnyddio'r wybodaeth mewn asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. Mae hefyd yn cael ei defnyddio i ddeall canlyniadau iechyd. |

Awgrymodd yr ymatebwyr ofynion gwybodaeth ychwanegol am amodau penodol, ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a rhyngweithio â gwasanaethau iechyd. Mynegodd ymatebwyr yr angen i gael gwybodaeth am iechyd meddwl.

## 2.10 Gofalwyr

Yn gyfan gwbl, atebodd 256 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn.

### Tabl 11: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y pwnc hwn

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 18 | 12 | 126 | 83 | 7 | 5 | 151 |
| Sefydliadau | 82 | 78 | 20 | 19 | 3 | 3 | 105 |
| **Cyfanswm** | 100 | 39 | 146 | 57 | 10 | 4 | 256 |

| **Manylion y pwnc** | **Barn gychwynnol** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Y gofal di-dâl a ddarperir | Casglu | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am ofalwyr a gaiff ei defnyddio i fonitro tueddiadau yn y ddarpariaeth o ofal di-dâl, i fonitro anghydraddoldebau a thargedu gwasanaethau cymorth. Cafodd gwybodaeth am ofal di-dâl ei ddefnyddio ynghyd â data arall yn y cyfrifiad er mwyn pennu proffil cymdeithasol-ddemograffig y gofalwyr. |

## 2.11 Y farchnad lafur a dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol

Yn gyfan gwbl, atebodd 326 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn.

**Tabl 12: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y pwnc hwn**

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 45 | 25 | 128 | 70 | 10 | 5 | 183 |
| Sefydliadau | 131 | 92 | 8 | 6 | 4 | 3 | 143 |
| **Cyfanswm** | 176 | 54 | 136 | 42 | 14 | 4 | 326 |

| **Manylion y pwnc** | **Barn gychwynnol** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Gweithgarwch economaidd | Casglu | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am y farchnad lafur a gaiff ei defnyddio ar lefel ardal fach i gyflawni amrywiaeth eang o swyddogaethau, gan gynnwys cynllunio economaidd a datblygu, ffurfio strategaethau lleol a thargedu'r broses o ddynodi adnoddau i atgyfnerthu'r broses o greu swyddi. Caiff dadansoddiad â ffocws o weithgarwch economaidd, galwedigaeth a diwydiant eu defnyddio ar y cyd i ddeall marchnadoedd llafur lleol er mwyn atgyfnerthu'r gweithgareddau hyn. |
| Galwedigaeth | Casglu | |
| Diwydiant | Mae angen rhagor o wybodaeth | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am ddiwydiant a gaiff ei defnyddio i ddeall marchnadoedd llafur lleol e.e. mae cymariaethau o anheddau a gweithleoedd yn ein helpu i ddeall a yw pobl leol wedi'u cyflogi mewn diwydiannau lleol. Mae hefyd yn rhan bwysig o'r broses o godio NS-SeC. |
| Dosbarthiad economaidd-gymdeithasol Ystadegau Gwladol (NS-SeC) | Casglu | Roedd cefnogaeth ar gyfer NS-SeC, a gaiff ei defnyddio yn gyson wrth fodelu e.e. disgwyliad oes ac at ddibenion ymchwil er mwyn ystyried safbwynt economaidd-gymdeithasol a deall anghydraddoldeb. |
| Statws goruchwylio | Peidio â chasglu | Roedd cefnogaeth dros barhau i gasglu statws goruchwylio gan iddo gael ei ystyried yn elfen bwysig o'r broses o ddynodi NS-SeC, ond ni chaiff ei ddefnyddio yn gyson ar ei ben ei hun. |
| Blwyddyn olaf a weithiwyd | Peidio â chasglu | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am y flwyddyn olaf a weithiwyd, a gaiff ei defnyddio mewn gwaith ymchwil ar gyfer pobl ddi-waith byrdymor neu hirdymor o'u cymharu â'r rheini nad ydynt erioed wedi gweithio. |
| Gwirfoddoli a gwaith di-dâl | Mae angen rhagor o wybodaeth | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am wirfoddoli a gwaith di-dâl. Mae hwn yn bwnc newydd y mae defnyddwyr yn bwriadu ei ddefnyddio i ategu darpariaeth y gwasanaeth a mesur gwerth cynorthwyo'r sector gwirfoddol. |

Gofynnodd y defnyddwyr am wybodaeth a oedd ymwneud â phynciau ychwanegol am y farchnad lafur, megis swyddi ychwanegol, perchenogaeth busnes a gweithio gartref.

## 2.12 Teithio

Yn gyfan gwbl, atebodd 284 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn.

### Tabl 13: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio data Cyfrifiad 2011 ar gyfer y pwnc hwn

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 21 | 13 | 131 | 84 | 4 | 3 | 156 |
| Sefydliadau | 106 | 83 | 17 | 13 | 5 | 4 | 128 |
| **Cyfanswm** | 127 | 45 | 148 | 52 | 9 | 3 | 284 |

| Manylion y pwnc | Barn gychwynnol | Sylw |
|---|---|---|
| Dull o deithio i'r gweithle | Casglu | Roedd cefnogaeth ar gyfer y wybodaeth hon, a gaiff ei defnyddio i fwydo cynlluniau trafnidiaeth drwy fodelau trafnidiaeth. Caiff ei ddefnyddio'n gyson i ddatblygu polisïau a monitro, gan gynnwys asesu effaith polisïau tai a thrafnidiaeth blaenorol. |
| Cyfeiriad y gweithle | Casglu | |
| Cyfeiriad y man astudio | Peidio â chasglu | Roedd cefnogaeth i wybodaeth am gyfeiriad man astudio fel ffynhonnell bosibl er mwyn helpu i gynllunio gwasanaethau trafnidiaeth. |

Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y dylid gofyn cwestiynau ychwanegol ynglŷn â pha mor bell y mae pobl yn teithio i gyfleusterau hamdden a chwaraeon, a pha mor bell y mae pobl yn teithio i gyfleusterau siopa.

## 2.13 Incwm

Yn gyfan gwbl, atebodd 271 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn

### Tabl 14: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio'r data a gyhoeddwyd ar gyfer y pwnc hwn

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 26 | 17 | 121 | 79 | 6 | 4 | 153 |
| Sefydliadau | 83 | 70 | 32 | 27 | 3 | 3 | 118 |
| **Cyfanswm** | 109 | 40 | 153 | 56 | 9 | 3 | 271 |

| **Manylion y pwnc** | **Barn gychwynnol** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Incwm | Peidio â chasglu. Archwilio'r potensial i ddefnyddio data gweinyddol | Byddai'r wybodaeth am incwm yn cael ei defnyddio i lywio dealltwriaeth am anghydraddoldeb ac asesu'r berthynas rhwng incwm a chostau tai er mwyn llywio'r gwaith o lunio polisïau. Mae defnyddwyr yn cefnogi nod SYG o archwilio data gweinyddol sy'n gysylltiedig ag incwm, fodd bynnag, gwnaethant roi sylwadau ar y gallu i gyflawni dadansoddiad aml-amrywedd os na fyddai cwestiwn yn cael ei holi yng Nghyfrifiad 2021. |

## 2.14 Hunaniaeth rywiol

Yn gyfan gwbl, atebodd 299 o bobl o leiaf un cwestiwn am y pwnc hwn.

**Tabl 15: Math o ymatebydd yn ôl p'un a ydynt yn defnyddio'r data a gyhoeddwyd ar gyfer y pwnc hwn**

| | Defnyddio'r data | | Ddim yn defnyddio'r data | | Heb ddweud a ydynt yn defnyddio'r data | | **Cyfanswm yr ymatebwyr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ymatebydd** | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* | *%* | *N* |
| Unigolion | 34 | 19 | 141 | 79 | 4 | 2 | 179 |
| Sefydliadau | 70 | 58 | 48 | 40 | 2 | 2 | 120 |
| **Cyfanswm** | 104 | 35 | 189 | 63 | 6 | 2 | 299 |

| **Manylion y pwnc** | **Barn gychwynnol** | **Sylw** |
|---|---|---|
| Hunaniaeth rywiol | Mae angen rhagor o wybodaeth | Roedd cefnogaeth ar gyfer gwybodaeth am hunaniaeth rywiol mewn perthynas â bodloni dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys defnyddio'r wybodaeth mewn asesiadau o effaith ar gydraddoldeb. Gallai hefyd gael ei ddefnyddio i lywio'r broses o gynllunio gwasanaethau a dyrannu adnoddau, yn arbennig ar lefel leol. Hefyd, gwnaeth y defnyddwyr gais am wybodaeth am y cysyniad ehangach o gyfeiriadedd rhywiol. Nododd rhai defnyddwyr y problemau a allai godi wrth gasglu data am hunaniaeth rywiol drwy Gyfrifiad 2021, yn benodol o ran ymatebwyr yn gwrthod ateb y cwestiwn hwn. |

# 3. Pynciau arfaethedig newydd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o'r pynciau y cynigiodd yr ymatebwyr y dylent gael eu cynnwys yn ychwanegol yng Nghyfrifiad 2021. Bwriedir iddo roi blas ar y prif bynciau newydd a gododd yr ymatebwyr. Caiff cynnwys, neu beidio â chynnwys, y pynciau hyn ei ystyried fel rhan o'r asesiad manwl gan ddefnyddio'r meini prawf asesu.

